Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

Ffurflen Gais

# Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau Hepgor Ffioedd

Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004

**Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon.**

**Ysgrifennwch yn glir mewn inc DU a thiciwch y blychau sy'n briodol.**

**Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.**

Hon yw'r ffurflen gywir i'w defnyddio os hoffech i'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau ("y Tribiwnlys") benderfynu a oes hawl gan yr Ymgeisydd i gael gostyngiad neu hepgoriad o ran ffioedd gwneud cais.

Os yw'r ymgeisydd neu ei bartner yn derbyn budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, *ar ddyddiad gwneud y cais*, efallai y gall unrhyw ffioedd gwneud cais gael eu hepgor. Mae'r rhain yn cynnwys;

– Credyd Cynhwysol
– Cymhorthdal Incwm
– Budd-dal Tai
– Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
– Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm
– Credyd Treth Gwaith o dan yr amodau canlynol:
    a. mae'r credyd **naill ai'n** cynnwys elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol (neu'r ddwy) **neu** mae wedi'i gyfuno â chredyd treth plant **a**
    b. mae'r incwm blynyddol gros a ddefnyddir i weithio allan y Credyd Treth Gwaith yn £14,213 neu'n llai
- Credyd Gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002
– Tystysgrif gyfredol a gyflwynwyd o dan y Cod Ariannu (cymorth cyfreithiol) ar gyfer y gweithrediadau gerbron y Tribiwnlys, y mae rhai ohonynt neu'r cyfan wedi'u trosglwyddo o'r Llys Sirol i Dribiwnlys gael penderfynu arnynt. (Os felly, anfonwch gopi i'r Tribiwnlys).

**Ni fydd y partïon eraill yn y gweithrediadau yn cael copi o'r ffurflen cais am hepgoriad hon.**

**Dylai'r Asiantaeth Budd-daliadau/Awdurdod lleol anfon y ffurflen gais wedi'i chwblhau i:**

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl**
**Oak House**
**Cleppa Park**
**Celtic Springs**
**Casnewydd**
**NP10 8BD**

Dewis iaith

Mae’r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae’r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r tribiwnlys yn Gymraeg neu’n Saesneg.

Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at rpt@llyw.cymru neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

## 1. MANYLION YR YMGEISYDD/EIDDO

Enw'r Ymgeisydd: ______________________

Cyfeiriad yr Ymgeisydd (gan gynnwys cod post): ______________________

______________________

______________________

______________________

Cyfeiriad yr Eiddo (gan gynnwys cod post): ______________________

______________________

______________________

______________________

Dyddiad y Cais i'r Tribiwnlys:

**Cwblhewch naill ai adran 2A neu 2B**

## 2A.

A oes gennych chi, neu eich partner [(1)], dystysgrif ddilys o dan y Cod Ariannu a gyflwynwyd ar gyfer y gweithrediadau perthnasol sydd wedi'u trosglwyddo o'r Llys Sirol?

Os felly, anfonwch gopi i'r Tribiwnlys. Nid oes angen i chi lenwi gweddill y ffurflen.

OES ☐ NAC OES ☐

## B.

| A ydych chi, neu eich partner [(1)], yn derbyn unrhyw rai o'r budd-daliadau canlynol? | CHI | EICH PARTNER |
|---|---|---|
| Cymhorthdal Incwm | ☐ | ☐ |
| Budd-dal Tai | ☐ | ☐ |
| Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm | ☐ | ☐ |
| Credyd Treth Gwaith lle mae'r Incwm Blynyddol gros a ddefnyddir i weithio allan y Credyd Treth yn £14,213 neu'n llai | ☐ | ☐ |
| Os felly | | |
| A oes elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol wedi'i chynnwys | ☐ | ☐ |
| A ydych chi neu eich partner yn cael credyd treth plant | ☐ | ☐ |
| Credyd Gwarant o dan Ddeddf Credyd Pensiynau'r Wladwriaeth 2002 | ☐ | ☐ |
| Lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm a delir o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 | ☐ | ☐ |

[(1)] Mae 'partner' yn golygu priod yr ymgeisydd neu berson o'r rhyw arall y mae'r ymgeisydd yn byw gydag ef neu hi fel gŵr neu wraig, neu berson o'r un rhyw y mae'r ymgeisydd yn byw gydag ef neu hi mewn perthynas sy'n rhannu'r un nodweddion â'r berthynas rhwng gŵr a gwraig.

**Llofnodwch y caniatâd ar y dudalen nesaf a nodwch y dyddiad arno er mwyn i'r Asiantaeth Budd-daliadau neu'r Awdurdod Lleol ryddhau'r manylion angenrheidiol i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl fel y gall ddilysu eich cais i gael hepgoriad ffioedd. Yna ewch â'r ffurflen hon i'ch Asiantaeth Budd-daliadau neu Awdurdod Lleol neu anfonwch hi drwy'r post.**

## 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawiad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

## 4. CANIATÂD I ROI MANYLION AM FUDD-DALIADAU A DDERBYNIWYD I'R TRIBIWNLYS PRISIO LESDDALIADAU (I'w gwblhau gan y sawl sy'n derbyn y budd-dal).

Cytunaf y gall yr Asiantaeth Budd-daliadau/Awdurdod Lleol gadarnhau i'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau fy mod yn derbyn y budd-dal canlynol ar y dyddiad y gwnes i neu fy mhartner gais i'r Tribiwnlys, er mwyn dilysu cais i hepgor y ffioedd sydd i'w talu am gais.

Math o Fudd-dal a Dderbyniwyd: ______________________

Cyfeiriad y Swyddfa lle roeddwn wedi gwneud cais am y budd-dal: ______________________

______________________

______________________

______________________

Fy Enw (priflythrennau) ______________________

Fy Nghyfeiriad (priflythrennau): ______________________

______________________

______________________

______________________

Rhif Yswiriant Gwladol: ______________________

**Neu** Rif Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol (ar gyfer Budd-dal Tai): ______________________

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ______________________

## 5. I'W GWBLHAU GAN YR ASIANTAETH BUDD-DALIADAU/AWDURDOD LLEOL

Tystiaf fod y cwsmer budd-dal a enwyd uchod yn derbyn

______________________________________________(nodwch y budd-dal)

ar _____________________________ (dyddiad y cais i'r Tribiwnlys)

Os yw'r budd-dal wedi dod i ben,
rhowch ddyddiad y taliad diwethaf ______________________________

Llofnod: ______________________________

Adran: ______________________________

Rhif Ffôn: ______________________________

Stamp y Swyddfa:

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r drefn y bydd y Tribiwnlys yn ei dilyn, ffoniwch y Tribiwnlys Eiddo Preswyl ar **0300 025 2777** neu e-bostiwch **rpt@llyw.cymru**.